

SL(5)689 – Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) (Diwygio) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) (Diwygio) 2020 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"), sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 2011/92/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 13 Rhagfyr 2011, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2014/52/EU ("y Gyfarwyddeb AEA"), ar asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd mewn perthynas â dau fath o brosiect ym mharagraff 1 o Atodiad II i'r Gyfarwyddeb honno: prosiectau i ailstrwythuro daliadau tir gwledig a phrosiectau i ddefnyddio tir heb ei drin neu ardaloedd lled-naturiol at ddibenion amaethyddol dwys.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau 2017 i ddileu'r esemptiad ar gyfer gwaith cyfyngedig ar dir comin o dan adran 38 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006, er mwyn sicrhau y cydymffurfir yn ddigonol â'r Gyfarwyddeb AEA.

Gweithdrefn

Negyddol

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Bydd y Rheoliadau hyn yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.



Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

